WG35 · S 128

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM

## RICHARD MEDLYCOTT,

## O'R TY-UCHAF,

YN

## MHENTREF MERTHYR-CYNOG,

*Yr hwn a ymadawodd a'r byd, Mai y 4ydd, ac a gladdwyd wrth Lan Merthyr-Cynog Mai y 7fed 1836, yn 48 Mlwydd oed.*

*Pregethodd ar yr achlysur, y Parch. Rees Williams Offeiriad y lle, oddiwrth, Hebreaid 4. 9.*

——ooo——

"Coffadwriaeth y Cyfiawn sydd fendigedig."
SOLOMON.

——ooo——

GAN D. WILLIAMS,

*Merthyr-Cynog.*

*ABERHONDDU:*

Argraffwyd gan W. Williams, Heol-Fawr.

1836.

1205311864

# MARWNAD.

1. Mae newyddion blin yn hedeg
Am waith angau brenin braw,
Am ei fod yn tori dynion
Ar y ddaear yma 'thraw;
Tori henaint sydd yn crymu
Wared tu a llwch y bedd,
Tori iengtyd sydd yn codi
Yn dra hyfryd hardd eu gwedd,

2. Tori hefyd ganol oedran
O deuluoedd cynes iawn,
Tori tlodion sy'n ymddifaid
O un cysgod nos na nawn,
Tori duwiol ac annuwiol,
Tori ffol a thori call,
Ac er wylo dagrau heilltion,
Eto chymer ef ddim pall.

3. Ac o'r diwedd rhoddodd ergyd
Yma yn ein hardal ni,
Ac am iddo roddi hwnw,
Y mae yma chwerw gri;
Richard Medlycott yn ddiau
Aeth dan bwys yr ergyd mawr,
Ac wrth gofio nawr am hynny,
Dagrau ant yn lli i'r llawr.

4. Gwr cariadus fel cymydog
Oedd heb amau yn ei ddydd,
Gwr a gafodd pur dderbyniad
Ydoedd ef, gan deulu'r ffydd,
Gwr a garai yr holl deulu,
Gwr a gerid ganddynt hwy,
Ond er hyn yr angau gerwyn
Roddodd iddo farwol glwy.

5. Byth ni welir ef yn rhodio
Wyneb daear fel o'r bla'n,
Nac yn ymbil am drugaredd
Yma wrth yr orsedd lan,
Do gadawodd yr anialwch
Ca'dd fyn'd a dre at ei Dad,
I glodfori mwy heb flino,
Am rinweddau mawr y gwa'd.

6. Wyth a deugain o flynyddoedd
Bu ef yma yn y byd,
Deunaw llawn ac un a haner
Bu ef yn y gorlan glyd,
Un ar bymtheg llawn o hyny
Bu'n blaenori gyda'r gwaith,
Ni ogwyddodd dim o'i goron
Hyd nes cyraedd pen ei daith.

7. Bugail diwyd oedd yn ddiau,
I fugeilio praidd ei Dad,
Yn ei gariad brynodd Iesu
Ar y groes â'i werthfawr wa'd;
Gofal oedd o fewn ei galon
Am y gweiniaid oll i gyd,
'Fe'u hanogai yn garedig
'Droi at Dduw trwy'r aberth drud.

8. Ac a ddywedai'n fredrus wrthynt
Fod yr Arglwydd yn ddilai,
O'i drugaredd rad yn maddeu
I'r holl edifeiriol rai,
Yn eu derbyn hwy i'w heddwch,
Yn eu gwledda'n hyfryd iawn,
Ar ddanteithion yr efengyl
Sydd yn wastad yn dra llawn.

9. Fe'u hanogai hwy i orwedd
Yn y borfa welltog fras,

Ac i aros eu holl ddyddiau
Ar lan afon loyw las,
I ryfeddu mawr ddaioni
Y Jehofa at y dyn,
Oedd yn euog ac yn aflan,
A gresynol iawn ei lyn.

10. Iddo gofio yn ei gariad
Am yr adyn oedd mor dlawd,
A danfonodd ei Fab anwyl
Lawr o'r nef i wisgo cnawd,
A bod Iesu wedi agor
Ffordd i'r euog ddod i ma's
O gry faglau y diafol,
Er ei holl ddichellion cas.

11. Y ddeddf gafodd lawn anrhydedd,
A chyfiawnder berffaith iawn,
Gan ein Iesu pan yn hongian
Ar y groesbren, un prydnawn;
Dyma fodd i achub euog,
A'i sancteiddio yn hollol wyn,
Nes y byddo fel yr eira
Sydd i'w wel'd ar salmon fryn.

12. Yma cefais fawr hyfrydwch,
Dywedai hyn yn fynych iawn,
Anwyl frodyr a chwariorydd
Yma cewch chwi gysur llawn,
Dyma gymorth cryf i weiniaid
Yn yr anial dyrys maith,
Ac wrth bwyso yma'n ddiau
Chwi a ddewch i ben eich taith.

13. Ond rhybuddiai'r afreolus
Yn dra llymdost am ei ddrwg,
Mae Ior meddai at y cyfryw
Yn ddiamau yn dal gwg;

Ni ragrithiai ddim i'r mawrion,
Ni ddirmygai'r isel rai,
Dywedai ef heb dderbyn wyneb
Wrth bob dyn yn ol ei fai.

14. A bugeiliaid o'r fath yma
Yn ddiamau gâr ein Ior,
Hwy a gant eu harddel ganddo
Pan darfyddo tir a mor;
Da weis ffyddlon dywed wrthynt,
Buoch ffyddlon gyda'ch gwaith,
Ewch i mewn i'r lân orphwysfa
Mwy i dragwyddoldeb maith.

15. Gwr ymdrechgar gyda'r achos
Ydoedd Richard yn ddi gudd,
Cyrchu wnai ef i'r odfaon,
Wedi'r nos ac wedi'r dydd,
Nid oedd gwlaw na rhew nac eira,
Na thywyllwch nos ychwaith,
A'i ataliai ef rhag glynu
Yn dra chyson gyda'r gwaith.

16. Myned wnai i gymanfaoedd,
Cyrddau misol yn y sîr,
Awydd oedd o fewn ei galon
Am gael gafael ar y gwir;
Clywais ef yn gwaeddi yn aml
Am dduwioldeb yn ei grym,
Gwerthfawr fydd yr elw hwnw
Pan ddel angau â'i gledd llym.

17. Yn yr ysgol y sabbothau
Yn bur ddiwid byddai ef,
Yn cynghori'r plant i rodio
Yn nglan ddeddfau Arglwydd nef,
Ac i ochel ffyrdd annuwiol
Sydd yn arwain yn y bla'n,

Y rhai sydd yn rhodio ynddynt
I dragwyddol boethlyd dân.

18. Ac a daer weddiai drostynt,
Am i Dduw o'i ryfedd ras,
Eu dwyn allan o dywyllwch
Ac o faglau'r gelyn cas,
A rhoi iddynt ffydd i gredu
Yn y gwr fu ar y groes,
Rhwng troseddwyr yn dioddef
Dros euogion farwol loes.

19. Ond er mor ddefnyddiol ydoedd
Fe'n gadawodd yn ddilai,
Ar ddydd mercher yn y bore,
Y pedwerydd o fis Mai,
Yn y flwyddyn o oed Iesu
'Rhwn fu farw ar y bryn,
Mil wyth cant a thri o ddegau
A chwech eto sydd at hyn.

20. Dyma'r dydd y daeth angelion
Mewn mynydyn lawr o'r ne,
A dygasant ef yn fuan
Adre draw i'r dedwydd le;
Nid a croes, na gwae, na gofid,
Nac un blinder ato mwy,
Er cael cystudd chwerw yma,
Nid oes arno yna glwy.

21. Mae ei enaid mewn llawenydd
Sydd yn berffaith a di drai,
Yn mhlith patrieirch a phrophwydi,
Apostolion enwog rai,
A merthyron a ddioddefodd
Ddirfawr boenau yn y tân,
A thorf fawr o waredigion,
Olchwyd oll yn berffaith lan.

22. Ac mae Iesu, pentywysog,
A pherffeithydd ffydd y saint,
Yno yn eistedd ar ei orsedd,
Anrhaethadwy yw eu braint;
Hwythau yn gwel'd ei wyneb yno,
Heb un cwmwl arno'n bod,
Ac mae pawb sydd yno'n ddiau
Yn rhoi iddo ef y clod.

23. Maent yn moli Duw yn Ddrindod.
Am eu caru cyn bod byd,
Am eu prynu, am eu galw,
Am ei drugareddau i gyd,
Am eu dilyn trwy'r anialwch
A'u sancteiddio'n hollol wyn,
A'u dwyn adre yn y diwedd
Ato Ef i seion fryn.

24. Mae ei gorph ef nawr yn gorphwys
Yn ddi flino yn y bedd,
Ond fe godir hwn i fynu
I fwynhau tragywyddol wledd,
Gydâ'i enaid mewn gogoniant;
Moli bellach fydd ei waith
Heb un terfyn ar yr anthem,
Mwy i dragwyddoldeb maith.

25. Nawr dymunaf wrth ddybenu
Fendith ar y teulu clyd,
Y bu ynddo yn gysurol
Am hir amser yn y byd;
Boed i'w weddw a'i hymddifaid
Gael adnabod Duw yn Dad,
A chael golchi eu pechodau
Yn rhinweddau mawr y gwa'd.

26. Ei berth'nasau 'mhell ac agos
Fyddo'n meddu yr un fraint,

Rhodder iddynt hwy bob enaid
Etifeddiaeth gyda'r saint;
Eu personau fyddo'n glydion
Yn nghyfiawnder Crist ein pen,
Ai wasanaethu ef o galon
Fyddont bellach byth, Amen.

———ooo———

Angau i'r beddau heb ball—a gludodd
Genhedloedd yn ddiwall,
Trechodd ef y dyn tra chall,
Yn nghyd a'r hwn oedd anghall.

Gwn e ddug gedyrn ganddo—a gweiniaid
A'u gwedd glafedd yno,
A goludion dan glo,
Yn gorwedd oll yn gryno.

A thlodion hefyd a aeth i lawr—do
Dan ddaear gysgodfawr,
Yn gryno yno y nawr,
Darfu eu llafur dirfawr.

**DIWEDD.**

William Williams, Argraffydd, Aberhonddu.